

# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

## Ffurflen ymateb

i'r

## ymgyngoriad

Eich enw: Vaughan Salisbury

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyngor Eglwysi Rhyddion  
Cymru

e-bost/rhif ffôn: [vaughans143@gmail.com](mailto:vaughans143@gmail.com)

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Gorffennaf 2021** i:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm  
Is-adran Cwricwlwm ac Aseu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: [curriculumforwales@gov.wales](mailto:curriculumforwales@gov.wales)

**Cwestiwn 1** – Pa mor dda y mae'r canllawiau'n esbonio cwmpas CGM a'i gyd-destun ym maes y Dyniaethau?

<b>Ddim yn dda o gwbl</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn dda</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Derbyniol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Da</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Da iawn</b>	<input type="checkbox"/>
---------------------------	-------------------------------------	--------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------	--------------------------	----------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb (dim mwy na 250 gair).

- Mae'r fformat yn welliant ar y drafft blaenorol ac yn cynnig rhai penawdau defnyddiol ar gyfer creu maes llafur cytûn.
- Mae'r adran gyfreithiol yn gynhwysfawr ond mae diffyg eglurder a dryswch mewn manau:
  - mae'r diffiniad o grefydd yn annigonol. Nid ellir defnyddio'r diffiniad hwn wrth gyfeirio at Fwdhaeth;
  - mae'r adrannau sy'n cyfeirio at ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn aml yn anodd i'w deall, e.e. mae'r adran ar 'Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol' yn dueddol o awgrymu bod y sefydliadau hyn yn rhydd i anwybyddu'r cwricwlwm CGM newydd (yn rhannol neu yn llwyr) os nad yw'n 'cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol'. Mae'n amlwg bod angen mwy o eglurhad a chyflwyniad symlach yma;
  - Nodir y 'Cyhoeddir canllawiau statudol ar wahân mewn perthynas â chyfansoddiad CYSAGau (CYSau)'. O ystyried bod CYSAGau eisoes yn cynllunio Cynadleddau Maes Llafur Cytûn, mae'n bwysig fod y canllawiau hyn ar gael cyn gynted â phosib.
- Mae angen esbonio'n glir pa gredoau crefyddol a safbwyntiau athronyddol di-grefydd mae ymarferwyr angen eu cynnwys wrth gynllunio ac addysgu. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen nodi pwy sydd i fonitro y ddarpariaeth hon mewn ALL lle nad oes ymgynghorydd arbenigol.
- Nid yw'r ddogfen hon yn esbonio'n ddigon clir gwmpas CGM a'i gyd-destun o fewn y Maes Dyniaethau. Byddai'n fanteisiol iawn cael un neu ddau o fframweithiau enghreifftiol cryno. Mae'n bwysig hefyd nad yw CGM yn mynd ar goll o fewn Dyniaethau a bod hyn yn cael ei danlinellu'n benodol.
- Bydd Dysgu Proffesiynol yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant yr holl gynllun hwn.

**Cwestiwn 2** – A yw'r canllawiau, yn eu cyfanrwydd, yn glir ac yn ddefnyddiol i chi yn eich rôl?

<b>Ddim yn glir o gwbl</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ychydig yn aneglur</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn glir nac yn aneglur</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Clir</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Clir iawn</b>	<input type="checkbox"/>
----------------------------	--------------------------	---------------------------	-------------------------------------	------------------------------------	--------------------------	-------------	--------------------------	------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

- Mae rhai penawdau a dangosyddion defnyddiol yn y ddogfen ganllawiau hon ond mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau y gallai gael ei mabwysiadu fel maes llafur cytûn a bod yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr CGM wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm CGM ysgol. Yr hyn sydd ar goll yma yw canllaw ar gyfer sut mae hyn i gael ei gyflawni.

- Does dim eglurhad yma ynglŷn â beth yw'r berthynas rhwng y ddogfen ganllawiau hon a maes llafur cytûn.
- Does dim canllawiau ynglŷn â beth y dylai'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn cyntaf ei wneud yn rhinwedd ei rôl swyddogol wrth adolygu, datblygu ac argymhell Maes Llafur Cytûn i'w hawdurdod lleol.
- Does dim datganiad yma yn nodi a ganiateir i Faes Llafur Cytûn gynnwys unrhyw gyfarwyddyd/cynnwys o gwbl er mwyn cefnogi ei ysgolion.
- Dylai cael adnoddau dwyieithog sydd wedi eu hariannu'n ganolog er mwyn cefnogi ysgolion wrth weithredu'r canllawiau hyn ond nid yw hyn yn cael ei ddatgan yn y ddogfen.
- Does dim canllawiau ar gyfer ALI/CYSAGau nac ysgolion ynglŷn â'r modd y dylid ymdrin â chwynion gan rieni yn gysylltiedig ag addysgu CGM. Byddai esbonio beth yw ystyr dull gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol wrth addysgu CGM hefyd yn berthnasol o bosib yma nid yn unig ar gyfer ymarferwyr ond hefyd ar gyfer rhieni a'r rhai y diddymwyd eu hawl i dynnu eu plant allan o wersi CGM.
- Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn naill ai yn y canllaw hwn neu mewn canllaw ar wahan cyn Medi 2022.

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau'n cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer CGM?

<b>Ddim yn berthnasol o gwbl</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ychydig yn berthnasol</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Eithaf berthnasol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Perthnasol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Perthnasol iawn</b>	<input type="checkbox"/>
----------------------------------	--------------------------	------------------------------	-------------------------------------	--------------------------	--------------------------	-------------------	--------------------------	------------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

- Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn berthnasol, e.e. adran 'Cynllunio Eich Cwricwlwm' yn benodol, ond nid yw wedi ei ddatblygu'n ddigonol ac mae rhai pwyntiau wedi eu gadael allan (gweler y pwyntiau sy'n gysylltiedig â Cwestiwn 4).
- Byddai diagram neu fap 'Sut i ..' yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr wrth ystyried lle i ddechrau, ac yn benodol **sut** i gynllunio cwricwlwm sydd yn cynnwys CGM fel rhan o'r Dyniaethau. Bydd deunyddiau enghreifftiol dwyieithog yn allweddol wrth iddynt gael eu cefnogi i wneud hyn.
- Er mwyn i'r canllawiau fod yn ddefnyddiol, bydd angen iddynt gael eu dadbacio gan arbenigwr CGM fyddai'n gallu cefnogi ysgolion a lleoliadau ymhob un ALI.
- Pwynt 5 'Cynllunio Eich Cwricwlwm' – mae angen enghreifftiau er mwyn sicrhau y bydd CGM yn cael ei iawn le ac nid yn diflannu o fewn Dyniaethau neu ei ychwanegu rhywbryd wedyn, sy'n digwydd mewn rhai ysgolion yn barod.
- Mae'r adran ar ddeddfwriaeth yn gwbl angenrheidiol ond nid yw'n hawdd ei ddarllen fel ag y mae (gweler hefyd fy sylwadau ar gyfer Cwestiwn 4).

#### Cwestiwn 4 – Gan feddwl am bob adran o’r canllawiau, ydych chi’n teimlo bod:

- unrhyw fylchau yn yr wybodaeth? Os felly, beth y dylid ei ychwanegu?
- unrhyw adrannau sy’n arbennig o ddefnyddiol? Os felly, ym mha ffordd y maent yn ddefnyddiol ac i bwy?

##### Bylchau:

- Mae consyrn nad oes cysylltiadau na chyfeiriadau at Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) na’r fframwaith ADY yn y canllaw hwn.
- Bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar nifer fawr o Ysgolion Arbennig er mwyn eu helpu i weithredu’r newidiadau hyn a deall sut y gallant gynnwys CGM yn eu cwricwlwm ar gyfer eu dysgwyr, yn enwedig y rhai hynny sydd erioed wedi ei addysgu o’r blaen.
- Mae angen mwy o arweiniad ar sut i nodi pa brif grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol di-grefydd sydd yn lleol i Gymru a thu hwnt.
- Nid yw’r enghreifftiau Taith Ddysgu yn cyfeirio at archwilio gwerthoedd sy’n gyffredin ar draws gwahanol grefyddau a chredoau – mae hon yn elfen allweddol o ‘gydgysylltiad’ fel y cyfeirir ato yn Enghraifft 6, a dylai gael ei ystyried o ddifri er mwyn hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng cymunedau o bob ffydd a chred.
- Mae angen datblygu ymhellach y syniad o ‘Sut’ i gynllunio cwricwlwm newydd CGM yn y ‘Rhestr wirio i ysgolion a lleoliadau’ ar dudalen olaf y ddogfen.
- Does dim arweiniad ar gyfer ALI/CYSAGau ac ysgolion ar sut i ymdrin â chwynion gan rieni ynglŷn â’r modd yr addysgir CGM.
- Dylid cynnwys geirfa o dermau defnyddiol.
- Mae angen eglurder o ran yr adran gyfreithiol gan fod y geiriad yn aml yn gymhleth a hefyd dylid darparu atodiad neu droednodiadau sydd yn cyfeirio at bwyntiau cyfreithiol mewn Deddfau Addysg. Dylid nodi’n glir beth a olygir yn gyfreithiol ac yn ymarferol wrth y term ‘rhaid ystyried’ fel mae’n berthnasol i’r canllaw hwn a’r maes llafur cytûn lleol.
- Mae angen nodi’n glir beth yw statws cyfreithiol y ddogfen ganllawiau hon a’r maes llafur cytûn lleol.

##### Adrannau defnyddiol:

- Mae’r enghraifft Taith Ddysgu yn cynnig man dechrau defnyddiol iawn ar gyfer nifer eang o drafodaethau a gweithgareddau CGM. Bellach mae angen paru’r enghreifftiau hyn gyda dolenni ac adnoddau dwyieithog perthnasol er mwyn rhoi hyder i athrawon gyflwyno’r trafodaethau a’r gweithgareddau hyn.
- Mae Pwynt 4, Datblygiad Ysbrydol, yn adran bwysig gan fod hyn yn aml iawn yn cael ei anwybyddu ac ni ddylid ei ystyried fel mater sy’n berthnasol yn unig i’r cwricwlwm CGM ond yn hytrach ei fod yn berthnasol ar gyfer pob pwnc.

#### Cwestiwn 5 – A yw’r canllawiau’n cynnig digon o gefnogaeth i bob ymarferydd ar gyfer eu gwaith trefnu a’u haddysgu mewn perthynas â CGM?

<b>Annigonol</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ychydig yn annigonol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn ddigonol nac yn annigonol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn gymharol ddigonol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn ddigonol</b>	<input type="checkbox"/>
------------------	-------------------------------------	-----------------------------	--------------------------	--	--------------------------	-----------------------------	--------------------------	--------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

Er y nodir rhai dangosyddion canllaw defnyddiol yn y ddogfen hon, maent yn annigonol fel y cyflwynir yma. Er mwyn i ymarferwyr gael 'cefnogaeth ddigonol' mae angen rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Fel y nodir uchod ar gyfer Cwestiwn 4, mae angen llenwi'r bylchau gan gynnwys pwyntiau 'Sut i gynllunio' a 'Beth i'w gynllunio' wrth ystyried gweithredu'r cwricwlwm newydd hwn a darparu deunydd enghreifftiol dwyieithog. Mae angen deunyddiau enghreifftiol ar frys er mwyn dangos beth a olygir wrth CGM da mewn cwricwlwm integredig;
- Mae angen darparu cyrsiau Dysgu Proffesiynol (DP) ar gyfer ymarferwyr fel y gallant deimlo'n hyderus yn eu gallu i gynllunio ac addysgu eu cwricwlwm CGM newydd;
- Mae angen sicrhau bod cyrsiau DP dwyieithog ar gael cyn gynted â phosib. Bydd yn rhy hwyr fis Medi nesaf;
- Dylai athrawon/ymarferwyr fod yn cyfrannu at greu adnoddau dwyieithog fyddai'n cael eu defnyddio mewn Dysgu Proffesiynol;
- Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddf, sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ond does fawr ddim cyfeiriad at faterion ADY yn y ddogfen hon. Mae angen darparu arweiniad, cefnogaeth a dolenni cyfeirio ar gyfer ymarferwyr;
- Mae defnydd parhaol o'r term 'bydolygon' yn y ddogfen, e.e. t.11,13,14 yn creu cymhlethdod gan nad oes cytundeb barn hyd yma ar ystyr y term hwn. Yn ychwanegol at hyn, penderfynodd Llywodraeth Cymru i beidio defnyddio'r term hwn wrth benderfynu ar enw teitl newydd i Addysg Grefyddol.

**Cwestiwn 6** – A oes angen cymorth ychwanegol (e.e. dysgu proffesiynol ac adnoddau) i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

Os felly, rhowch fwy o fanylion

<b>Oes</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

Mae angen hwn ar fyrder a sicrhau ei fod ar gael cyn gynted ag y bo modd.

Deallwn fod ysgolion eisoes wedi dechrau cynllunio eu cwricwlwm a bod cynllunio ar gyfer y Dyniaethau wedi dechrau mewn nifer o ysgolion, a hynny heb dalu sylw i CGM. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o wybodaeth os o gwbl sydd gan ysgolion am y newidiadau sydd wedi digwydd i CGM ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ynglŷn â sut mae cynllunio ar ei gyfer a'i addysgu fel rhan o gwricwlwm integredig.

Mae'n allweddol bwysig fod Dysgu Proffesiynol ar y meysydd canlynol:

Y newidiadau deddfwriaethol i AG/CGM

Sut i ymdrin â chwynion sy'n gysylltiedig ag addysgu CGM

Lle y gellir cael maes llafur cytûn lleol a pham ei fod mor bwysig ar gyfer cynllunio CGM

Sut i gynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys CGM

Sut i gynllunio profiadau CGM ystyrion fel rhan o gwricwlwm Dyniaethau integredig.  
 Sut i addysgu CGM trwy ddefnyddio dull gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol. Byddai'n fuddiol petai'r termau hyn yn cael eu hesbonio (mewn Geirfa?) nid yn unig ar gyfer ymarferwyr ond hefyd ar gyfer rhieni a'r rhai hynny y diddymwyd eu hawl i dynnu eu plant allan o wersi CGM.  
 Sut i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynllunio ar gyfer CGM  
 Sut i reoli ac asesu cynnydd mewn CGM

Dylid ymestyn pob Dysgu Proffesiynol ar gyfer myfyrwyr HAGA a dylid annog darparwyr HAGA i ymgysylltu â'r broses. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y lleihad sydd wedi digwydd yn nifer yr oriau hyfforddiant pwnc-benodol CGM ar gyrsiau TAR/graddau Addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dylid cofio yn ogystal bod CGM, yn fwy nag unrhyw bwnc arall, yn cael ei addysgu gan athrawon heb arbenigedd pynciol a bod y sefyllfa hon yn debygol o gynyddu o gofio y bydd CGM yn rhan o faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

**Cwestiwn 7 – Mae'r cwestiwn hwn wedi'i anelu at Awdurdodau Lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau).**

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol ar gyfer datblygu cynadleddau meysydd llafur cytûn?

<b>Ddim yn ddefnyddiol o gwbl</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ychydig yn ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn weddol ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn ddefnyddiol iawn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn hynod ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>
-----------------------------------	-------------------------------------	-------------------------------	--------------------------	------------------------------	--------------------------	----------------------------	--------------------------	-----------------------------	--------------------------

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol?

<b>Ddim yn ddefnyddiol o gwbl</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ychydig yn ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn weddol ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn ddefnyddiol iawn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Yn hynod ddefnyddiol</b>	<input type="checkbox"/>
-----------------------------------	-------------------------------------	-------------------------------	--------------------------	------------------------------	--------------------------	----------------------------	--------------------------	-----------------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

- Fel y nodir, dogfen ganllawiau yn unig yw hon a byddai'n ofer mynd ati i'w mabwysiadu fel maes llafur cytûn gan nad yw'n cynnwys maes llafur na hyd yn oed fframwaith ar gyfer maes llafur. Does dim cyfeiriad yma at ba grefyddau, heblaw am Gristnogaeth (y cyfeiriad cyfreithiol) na pha argyhoeddiadau athronyddol digrefydd sydd angen eu haddysgu a beth fyddai'r pwysoliad posib ar gyfer pob cam cynnydd.
- Mae angen canllaw mwy penodol er mwyn cefnogi Cynadleddau Maes Llafur Cytûn (CMLIC) i ddefnyddio'r canllawiau hyn er mwyn llunio eu maes llafur. Os na cheir hynny, yna ni fydd hyd yn oed y CYSAGau hynny sydd â chefnogaeth arbenigol a phenodedig yn

gwybod, o safbwynt cyfreithiol, sut mae disgwyl iddynt weithredu ac o ganlyniad gallant fod yn torri'r gyfraith yn ddjarwybod.

- Heb fframwaith ganllawiau o ryw fath, gallai CMLIC/CYSAGau benderfynu llunio eu meysydd llafur cytûn eu hunain gyda'r canlyniad y byddai 22 o feysydd llafur cytûn gwahanol iawn ar draws Cymru. O ystyried y cwricwlwm newydd efallai bydd hyn yn anochel er ei fod yn cael ei ystyried yn y gorffennol yn fuddiol ac yn werthfawr i gael cryn gytundeb ar draws y 22 maes llafur cytûn yng Nghymru.
- Rydym wedi tynnu sylw mewn ymgynghoriadau blaenorol at beth yn union yw ystyr penodol cyfreithiol 'rhaid ystyried'. A fyddai'n bosib i athro ystyried y canllaw ac yna, wedi ystyried y mater, gwrthod y canllaw hwnnw mewn rhyw ffordd? Byddai rhyw eglurhad yn ddefnyddiol i bawb.

**Cwestiwn 8** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau CGM yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### Sylwadau ategol

- Yn amlwg mae angen i bob dogfennaeth gael ei gynhyrchu'n ddwyieithog ac ar yr un pryd. Mae nodi 'Y Gymraeg i ddilyn' yn gwbl annerbyniol. Mae'r pwynt hwn yn benodol berthnasol wrth ddarparu adnoddau addysgu neu ddeunyddiau enghreifftiol yn yr iaith Gymraeg.

**Cwestiwn 9** – Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y canllawiau CGM:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Sylwadau ategol

- Yn amlwg mae angen i bob dogfennaeth gael ei gynhyrchu'n ddwyieithog ac ar yr un pryd. Mae nodi 'Y Gymraeg i ddilyn' yn gwbl annerbyniol. Mae'r pwynt hwn yn benodol berthnasol wrth ddarparu adnoddau addysgu neu ddeunyddiau enghreifftiol yn yr iaith Gymraeg.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

- Mae angen diweddarau athrawon ar beth yn union yw argyhoeddiadau athronyddol digrefydd gan mai ychydig iawn o athrawon AG fydd wedi astudio e.e. Dyneiddiaeth fel rhan o’u cwrs prifysgol.
- Mae goblygiadau yma ar gyfer cyrsiau HAGA gyda’r angen i ddarparu cyrsiau byr diweddarau ar gyfer y pwnc hwn yn benodol.
- Mae angen darparu **adnoddau addysgu dwyieithog o safon uchel ar Ddyneiddiaeth** a hynny cyn gynted â phosib.
- Nid yw cyfeirio athrawon at wefan ‘Humanists UK’ yn enghraifft o arfer da gan fod hon yn wefan gyffesol yn hytrach nac addysgol. Nid yw’r fath wefannau yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu crefyddau’r byd ac ni ddylid gwneud hyn ar gyfer Dyneiddiaeth. Yr hyn sydd ei angen arnom yw **adnoddau addysgol** o safon uchel sydd yn wrthrychol, beirniadol, a phlwraliaethol a sydd ddim yn camliwio crefyddau.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

